Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Sector yn cyfrannu at raglen sy'n helpu pobl ifanc i gael gwaith

Bydd mudiadau trydydd sector yn creu bron i 1,000 o gyfleoedd gwaith newydd ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru rhwng mis Hydref 2009 a mis Mawrth 2010.

Bydd y sector yn creu bron i hanner y cyfleoedd newydd yng Nghymru dan raglen Llywodraeth y DU a sefydlwyd er mwyn helpu pobl ifanc ddi-waith yn yr hirdymor a phobl mewn ardaloedd lle mae lefelau diweithdra'n uchel.

Cyhoeddwyd Cronfa Swyddi'r Dyfodol yr Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghyllideb 2009, ac mae'n bwriadu creu 150,000 o swyddi newydd ledled y DU dros y ddwy flynedd nesaf.

Nod y rhaglen yw rhwystro pobl rhag dibynnu ar fudd-daliadau dros yr hirdymor drwy dargedu pobl rhwng 18 a 24 oed sydd wedi bod yn ddi-waith ers rhwng naw a 12 mis, yn ogystal ag ardaloedd lleol lle mae lefelau diweithdra'n uchel.

Mae WCVA, Groundwork, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Interlink ac RNIB oll wedi mynd ati'n llwyddiannus i wneud un cais neu geisiadau ar y cyd llwyddiannus i gefnogi'r rhaglen.

Dywedodd Graham Benfield, OBE, Prif Weithredwr WCVA: `Mae'r trydydd sector yn gwneud cyfraniad mawr at y rhaglen hon o ran darparu cyfleoedd hollbwysig i bobl ifanc yr effeithiwyd arnynt gan y dirywiad economaiddMae dros 100 o fudiadau trydydd sector yn rhan o gais WCVA ar y cyd a fydd yn creu swyddi amrywiol sy'n dod â boddhad mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys gwaith amgylcheddol, gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, ieuenctid a gwaith cymunedol.'

Bydd y cyllid yn cynorthwyo'r broses o greu swyddi ychwanegol newydd am chwe mis o leiaf. I gael gwybod mwy cysylltwch â Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at help@wcva.org.uk.

Cyhoeddi pecyn dirwasgiad yn help, medd WCVA

Bydd cyhoeddi pecyn cymorth y Gronfa Loteri Fawr sydd werth oddeutu £5.5 miliwn yn gam mawr ymlaen at helpu cymunedau yng Nghymru i fynd i'r afael ag effeithiau'r dirwasgiad, dywedodd WCVA.

Wrth ddisgrifio'r penderfyniad fel `newyddion da dros ben' ychwanegodd y Prif Weithredwr, Graham Benfield OBE: `Mae ein hymchwil a'n gwybodaeth a'n cysylltiadau o ddydd i ddydd yn dangos mwy o alw am wasanaethau, a bod nifer o fudiadau'n awr yn wynebu anawsterau ariannol, colli incwm a hyd yn oed cau.

`Fydd y pecyn hwn ddim yn diwallu'r holl anghenion hynny - ond bydd asiantaethau cyngor, buddiolwyr grantiau'r Gronfa Loteri Fawr, a phrosiectau sy'n darparu cymorth uniongyrchol sydd wedi dioddef yn sgil y dirwasgiad, yn croesawu'r pecyn yn fawr.'

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau ei hymgynghoriad Y Farn Fawr a sut mae'n bwriadu gwario oddeutu £250m ar ystod o raglenni yng Nghymru dros y chwe blynedd nesaf, roedd y Gronfa Loteri Fawr hefyd wedi ymgynghori a^ mudiadau elusennol a gwirfoddol ynghylch sut y dylai ymateb i'r dirywiad economaidd.

Penderfynodd fuddsoddi £2.5m ychwanegol mewn grantiau newydd i fynd i'r afael a^'r dirwasgiad. Drwy geisiadau i'w rhaglen Pobl a Lleoedd, mae'r Gronfa Loteri Fawr hefyd yn amcangyfrif y bydd hyd at £3m ar gael i brosiectau sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol i'r cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf.

Mae'r `Pecyn Dirwasgiad' newydd yn cynnwys tair elfen a anelir at ddarparu ymateb brys i gymunedau yr effeithir arnynt a chefnogaeth i fudiadau gwirfoddol ac elusennol sydd ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cyngor hanfodol i'r cyhoedd.

Bydd yr elfen gyntaf yn gweld cynnig grantiau hyd at £50,000 dros ddwy flynedd i'r mudiadau hynny sy'n darparu gwasanaethau cyngor, gyda £2m ar gael i'w helpu i recriwtio ac i hyfforddi aelodau ychwanegol o staff ac ymestyn eu gwasanaethau i ddiwallu'r galw ychwanegol.

Dan ail elfen y pecyn, mae'r Gronfa Loteri Fawr yn darparu £500,000 i ategu dyfarniadau i'r rheini sydd eisoes wedi cael grant ac sydd yn dangos bod eu prosiect yn dioddef o ganlyniad uniongyrchol i'r dirwasgiad.

Yn drydydd, bydd rhaglen Pobl a Lleoedd y Gronfa Loteri Fawr yn mabwysiadu'r `dirwasgiad' fel blaenoriaeth wrth benderfynu pa brosiectau i'w cyllido. Mae pwyllgor dyfarnu grantiau Pobl a Lleoedd wedi cytuno i flaenoriaethu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n debygol o gefnogi cymunedau i wrthsefyll effaith y dirwasgiad.

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen Pobl a Lleoedd a'r pecyn dirwasgiad, edrychwch ar www.cronfaloterifawr.org.uk neu ffonio llinell gymorth y Gronfa Loteri Fawr ar 01686 611 700.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Grantiau i alluogi grwpiau i fynd ar-lein

Gall elusennau a grwpiau cymuned sy'n chwilio am offer TG ymgeisio am grant oddi wrth BT i'w helpu i fynd ar-lein.

Mae Cysylltiadau Cymunedol (Community Connections) BT yn gynllun grantiau sy'n galluogi mudiadau elusennol a chymunedol i fynd ar-lein. Gall grwpiau ymgeisio am gyfrifiadur glin ynghyd â chysylltiad band eang am ddim am flwyddyn. Rhoddir y pecynnau grant i grwpiau sy'n gallu dangos sut y bydd grant o fudd i'w gwaith a'r gymuned leol.

Gall unrhyw fudiad, sy'n gweithio mewn unrhyw faes budd cymunedol, a leolir yn unrhyw le yn y Deyrnas Unedig neu Weriniaeth Iwerddon ymgeisio. Yn y gorffennol bu prosiectau gwirfoddol, gwasanaethau rhyngrwyd i'r henoed, mudiadau cadwraeth, grwpiau cynnal teuluoedd, timau chwaraeon a grwpiau ieuenctid yn llwyddiannus. I gael rhagor o wybodaeth ac i weld astudiaethau achos oddi wrth grwpiau buddugol y gorffennol ymwelwch â www.btcommunityconnections.com. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau drwy'r post yw 5 Ionawr 2010 a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar-lein yw 7 Ionawr 2010.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth - newydd

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi penderfynu yn erbyn estyn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gwmpasu elusennau sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhaliodd y weinyddiaeth ymgynghoriad ar a ddylid estyn y rhestr o `awdurdodau cyhoeddus' sy'n cael eu cwmpasu gan y ddeddf i `gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau sy'n swyddogaeth awdurdod cyhoeddus'.

Fodd bynnag, mewn ymateb a gyhoeddwyd y mis hwn, dywedodd y weinyddiaeth y byddai'r manteision o gynnwys elusennau o fewn y ddeddf yn cael eu gorbwyso'n sylweddol gan yr effaith negyddol `anorfod' ar eu hachosion elusennol o ganlyniad i gost ychwanegol cydymffurfiaeth. Ond ychwanegodd y byddai'r Llywodraeth yn `disgwyl i elusennau ymateb mor agored a phrydlon â phosibl i geisiadau am y wybodaeth a ddelir ganddynt'.

Cyfle i ddatblygu wrth weithio yn Affrica is-Saharaidd

Mae rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn cynnig cyfle ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol, gan dreulio wyth wythnos yn gweithio'n strategol yn Affrica is-Saharaidd.

Mae'r cyfleoedd yn cynnwys gweithio ar brosiectau datblygu cynaliadwy a rhannu profiadau gyda chyfoedion Affricanaidd mewn gwledydd megis Camerŵn, Sambia, a Ghana. Bydd cyfranogwyr yn defnyddio eu sgiliau a'u profiad mewn amgylchedd newydd a heriol, gydag adnoddau cyfyngedig yn aml. Cânt eu hannog i fyw a gweithio'n fwy dyfeisgar a chreadigol gan rannu sgiliau a phrofiadau. Y gobaith yw y bydd gwaith y cyfranogwyr yn gadael etifeddiaeth barhaus.

`Roedd gwneud cais am Gyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn golygu cael profiadau na fyddwn yn eu cael fel arfer yn fy ngwaith o ddydd i ddydd.'

Dywedodd cyfranogwr diweddar: `Roedd gwneud cais am Gyfleoedd Dysgu Rhyngwladol yn golygu cael profiadau na fyddwn yn eu cael fel arfer yn fy ngwaith o ddydd i ddydd. Pe byddwn yn siarad â rhywun a oedd yn ystyried Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol, byddwn yn dweud `rhowch gynnig arni oherwydd ni fyddwch yn difaru'. Bydd y ffrindiau rwyf wedi'u gwneud a'r sgiliau rwyf wedi dysgu yn aros gyda mi am weddill fy mywyd'.

Bydd cymorth ar gael yn ystod pob cam o'r broses a bydd pethau ymarferol megis llety a theithio a threfniadau fisa yn cael eu cwmpasu. Oherwydd mai blwyddyn olaf y rhaglen yw eleni, ni ellir derbyn ceisiadau ar ôl dydd Gwener 30 Hydref 2009.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth bellach neu i wneud cais am becyn gwneud cais ffoniwch 029 2068 1343 neu anfonwch e-bost i PLandD@wales.gsi.gov.uk. Cyflenwir Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol gan RhNgCC ar y cyd â'r elusen datblygu rhyngwladol VSO ac fe'u hariennir gan Fframwaith Affrica Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH ✆ 029 2043 1700 ✆ 029 2043 1701
www.wcva.org.uk ✆ 0800 2888 329

Gweithdy ar Gydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ym mis Ebrill 2009, cyflwynodd y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef rhwydwaith a gefnogir gan WCVA, ymateb i ymgynghoriad y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan.

Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at nifer o argymhellion, yn cynnwys yr angen i archwilio'r berthynas rhwng cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol, yn ogystal â'r effaith y byddai'r agenda cydlyniant cymunedol yn ei chael ar gyllid ar gyfer mudiadau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru, yn enwedig y rheini sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Roedd y Gynghrair wedi mynegi barn gref y dylid cynnal Asesiad Effaith llawn o'r strategaeth o safbwynt Cydraddoldeb er mwyn bodloni gofynion statudol ac argymhellion arfer gorau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Lunio Polisïau mewn modd Cynhwysol.

Roedd Adroddiad Ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad - Gorffennaf 2009, yn cydnabod bod angen cryfhau'r strategaeth yn y maes hwn. I gefnogi'r gwaith hwn, gwahoddwyd y Gynghrair a mudiadau gwirfoddol eraill sydd â diddordeb yn y maes hwn i gymryd rhan mewn gweithdai a oedd yn archwilio'r materion hyn ar ddydd Mawrth 18 Awst yn swyddfa Llywodraeth y Cynulliad ym Merthyr. Roedd nifer o fudiadau'n bresennol, yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol elfennau cydraddoldeb a mudiadau gyda chylch gwaith lleol. Hefyd, cyfarfu Llywodraeth y Cynulliad â mudiadau yn y Gogledd ar 28 Awst.

Cafwyd trafodaeth fywiog am y materion, yn cynnwys yr angen am gyllid newydd ar gyfer y trydydd sector i gefnogi gwaith cydlyniant cymunedol, sut mae cyfle cyfartal a chyfiawnder cymdeithasol yn feini prawf hanfodol ar gyfer cydlyniant cymunedol (felly mae angen eu cynnwys yn y diffiniad), a'r angen i amlinellu'n glir y berthynas rhwng cydlyniant cymunedol a chydraddoldeb yn y strategaeth gan ddarparu canllawiau i awdurdodau lleol i sicrhau nad ydynt yn camddeall hyn gan arwain at effeithiau negyddol i fudiadau cydraddoldeb. Argymhellwyd yn gryf hefyd bod angen cynnal Asesiad Effaith llawn a chynhwysfawr ar Gydraddoldeb. Roedd y grwp hefyd wedi cyflwyno enghreifftiau o brosiectau cydraddoldeb sy'n ymwneud â'r agenda cydlyniant cymunedol.

Disgwylir y bydd y Strategaeth Cydlyniant Cymunedol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2009. Bydd y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn parhau i ymgysylltu â'r strategaeth hon drwy'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Jessica McQuade ar 029 2043 1759 neu anfon e-bost at jmcquade@wcva.org.uk.

Y Gynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r ymateb i'r ymgynghoriad

http://www.wcva.org.uk/policy/dsp_network.cfm?networkid=31&display_sitedeptid=9&lang=cy

Dolen i adroddiad yr ymgynghoriad

http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/communitycohesion/?skip=1&lang=cy

Dolen i wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru - Llunio Polisïau mewn Modd Cynhwysol

http://wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/?lang=cy

Grantiau ar gyfer busnesau bach

Mae'r Gronfa Fuddsoddi Leol (LIF) Cymru De-ddwyrain Cymru yn gynllun grant hyblyg sy'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth awdurdodau leol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen.

Cafodd y prosiect ei ddatblygu gyda chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop o dan y Rhaglen Gydgyfeirio. Diben penodol y Gronfa Fuddsoddi Leol yw cefnogi ystod o Fusnesau Bach a Chanolig (BBChau).

Bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos bod cyfran sylweddol o'u gweithgaredd yn cael ei gyflawni o fusnes i fusnes a bod ganddynt allu i `ychwanegu gwerth' neu gynnig budd sylweddol i'r economi leol (ee drwy greu swyddi newydd). Mae grantiau rhwng £1,000 a £5,000 ar gael, wedi'u seilio ar 35% gostau cymwys y prosiect.

Os yw eich busnes yn Rhondda Cynon Taf cysylltwch a'r Uned Cymorth Busnes ar 01433 495169 neu e-bostio invest@rctcbc.gov.uk. A yw eich busnes mewn rhan arall o Dde-ddwyrain Cymru cysylltwch a'ch adwdurdod lleol.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd
CF10 5FH (029 2043 1700 (029 2043 1701
www.wcva.org.uk (0800 2888 329

Cyfranogaeth Cymru i hybu ymgysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru

Mae Cyfranogaeth Cymru, partneriaeth o fudiadau cyhoeddus a thrydydd sector sy'n cael ei gynnal gan WCVA bellach wedi'i ehangu i ddiwallu heriau ymgysylltiad â'r cyhoedd ymhellach yng Nghymru. Bydd yn darparu hyfforddiant arloesol, cymorth, gwybodaeth a chyfeiriad polisi mewn ymagweddau cyfranogol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion.

Hyd yma mae'r ffocws wedi bod ar ddatblygu gwybodaeth ac arbenigedd cyfranogol sefydliadau er mwyn grymuso cymunedau. Mae tîm Cyfranogaeth Cymru newydd wedi'i benodi erbyn hyn a fydd yn parhau i weithio gyda sefydliadau trydydd sector er mwyn cynorthwyo gyda'u gwaith ymgysylltu â chymunedau, a bydd hefyd yn gweithio gyda sefydliadau o'r sector cyhoeddus i'w cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu cyfranogiad â'r cyhoedd.

`Wrth i ni ymgysylltu â'r agenda hon, nod Cyfranogaeth Cymru yw cefnogi darparwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu hymrwymiad i gyfranogiad ac ymgysylltiad â dinasyddion gan sicrhau gwasanaethau cyhoeddus gwych sy'n hollbwysig i Gymru ffyniannus, gynaliadwy, iachach a mwy addysgedig'

Bydd Mandy Williams, Rheolwr newydd Cyfranogaeth Cymru yn goruchwylio'r gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau Cyfranogaeth Cymru i bob mudiad. Bydd Sarah Jones yn darparu cymorth ymarferol, hyfforddiant, cyngor a chyfeiriadau ar arfer da fel Swyddog Cyfranogaeth Cymru, tra bydd Dyfrig Williams yn hyrwyddo ac yn cynyddu ymwybyddiaeth o waith Cyfranogaeth Cymru fel Ymgynghorydd Gwybodaeth Cyfranogaeth Cymru.

Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Creu'r cysylltiadau: gwell gwasanaethau i Gymru, un o'i egwyddorion sylfaenol oedd sicrhau bod y rhai a oedd yn cynllunio, yn datblygu ac yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud hynny drwy gynnwys dinasyddion ar bob lefel o'r broses. Mewn ymateb i'r her hon, dywedodd Mandy Williams, `Wrth i ni ymgysylltu â'r agenda hon, nod Cyfranogaeth Cymru yw cefnogi darparwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu hymrwymiad i gyfranogiad ac ymgysylltiad â dinasyddion gan sicrhau gwasanaethau cyhoeddus gwych sy'n hollbwysig i Gymru ffyniannus, gynaliadwy, iachach a mwy addysgedig'.

Bydd gwefan a chylchlythyr Cyfranogaeth Cymru yn parhau i ddarparu gwybodaeth hygyrch i sefydliadau sy'n gweithio yn y maes cyfranogiad yng Nghymru. Byddwn hefyd yn cynnig cyfleoedd i gyfnewid gwybodaeth a phrofiadau drwy rwydweithiau cyfranogi, a Setiau Dysgu Gweithredol i ddatblygu sgiliau drwy ddysgu a rennir.

Mae Cyfranogaeth Cymru wrthi'n datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a fydd yn dechrau ym mis Hydref. Bydd llyfryn ar gael ym mis Medi a fydd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau i sefydliadau sy'n awyddus i ddatblygu eu sgiliau mewn ymagweddau, dulliau a thechnegau ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae gwasanaeth hyfforddiant pwrpasol hefyd ar gael er mwyn i hyfforddiant gael ei gynllunio a'i gyflenwi'n benodol ar gyfer anghenion mudiadau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn www.participationcymru.org.uk neu anfonwch e-bost i participationcymru@wcva.org.uk.

Bydd rhifynau nesaf yr atodiad cenedlaethol hwn gan WCVA ar gael ar ddiwedd misoedd Hydref a Thachwedd 2009 ac Ionawr a Mawrth 2010.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr *Atodiad Cenedlaethol* gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.